Welsh

Housing Benefit and Council Tax Benefit – a guide to fraud and how we can prevent it

Budd-dal Tai a Budd-dal Treth y Cyngor – gwybod am dwyll a sut y medrwn ni ei atal

Mae'r daflen hon yn egluro beth yw twyll Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor a sut y medrwn ni gydweithio i'w atal. Yr un yw'r rheolau pa le bynnag yr ydych yn byw. Os na wyddoch pa gyngor sy'n gyfrifol am yr ardal lle mae eich cartref chi, fe welwch y wybodaeth honno ar eich bil treth cyngor.

What is Housing Benefit and Council Tax Benefit fraud?
Beth yw twyll Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor?

Bydd twyll yn digwydd pan fo rhywun yn gwneud cais am fudd-dal ar sail gwybodaeth y gwyddant ei bod yn gelwydd neu'n anghywir. Gallai cais droi'n dwyll hefyd os na fydd y sawl sy'n hawlio budd-dal yn dweud wrthym am newid yn ei amgylchiadau a fyddai'n lleihau swm y budd-dal sy'n ddyledus iddo. Weithiau dim ond y person sy'n hawlio'r budd-dal sy'n gyfrifol am y twyll budd-dal, ond weithiau gall ei landlord, cyflogwr, cynrychiolydd neu rywun arall fod wedi ei helpu i lenwi ffurflen gais am fudd-dal.

Mae twyll budd-dal yn drosedd. Os byddwn yn credu bod rhywun yn hawlio budd-dal nad yw'n ddyledus iddo, bydd ein tîm arbennig yn ymchwilio i'r mater. Os cawn hyd i wybodaeth i brofi bod pobl yn twyllo, efallai y byddwn yn eu herlyn, yn gwneud iddynt dalu dirwy neu'n rhoi rhybudd swyddogol (*caution*) iddynt. Beth bynnag, byddem yn hawlio yn ôl gyfanswm y budd-dal a ordalwyd. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y byddwn hefyd yn cymryd arian ac asedau eraill oddi arnynt os teimlwn eu bod wedi eu caffael drwy droseddu.

Why is it important to stop Housing Benefit and Council Tax Benefit fraud?
Pam mae hi'n bwysig atal twyll Budd-dal Tai a Budd-dal Cyngor?

Amcangyfrifir bod twyll budd-dal yn costio £2 biliwn i drethdalwyr bob blwyddyn. Gallai'r arian hwn gael ei wario ar wasanaethau eraill hanfodol. Bydd twyll yn effeithio ar faint y dreth cyngor a'r dreth incwm y bydd yn rhaid ichi eu talu ac ar lefel yr adnoddau a fydd ar gael i'w rhannu o fewn ein cymuned.

Mae'n ddyletswydd arnom warchod cronfeydd budd-dal rhag twyll a chamddefnydd. Mae hefyd yn ddyletswydd arnom ymchwilio i dwyll, ac mae'r Llywodraeth yn mesur pa mor llwyddiannus yr ydym yn gwneud hyn.

What is being done to help stop fraud in benefit claims?
Beth sy'n cael ei wneud i helpu i atal twyll wrth hawlio budd-daliadau?

Mae ein Tîm Archwilio Twyll yn gweithio'n glòs gydag asiantaethau eraill i leihau twyll budd-dal. Byddant yn cyflawni ymchwiliadau ar y cyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau a chynghorau cyfagos a gall yr Heddlu, Asiantaeth y Ffiniau, a Threthi a Thollau Ei Mawrhydi fod yn rhan o'r ymchwiliadau hynny.

Rydym yn gweithredu ymarferion croeswirio data. Bydd y rhan fwyaf o'r rhain yn cael eu gweithredu gan y Gwasanaeth Croeswirio Budd-dal Tai, a Chynllun Twyll Cenedlaethol y Swyddfa Archwilio – gan gynnwys Audit Scotland yn yr Alban, a fydd yn gwirio'r wybodaeth a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus a nifer o gwmnïau preifat. Bydd unrhyw wybodaeth nad yw'n cyd-fynd yn cael ei dwyn i sylw'r awdurdod perthnasol i'w harchwilio.

Byddwn yn ymchwilio i bob honiad o dwyll budd-dal. Os dengys ein hymchwiliadau fod rhywun yn twyllo, byddwn yn ystyried eu herlyn neu weithredu mewn ffordd arall yn erbyn y person neu'r bobl dan sylw, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau personol a pha mor ddifrifol yw'r achos. Bydd ein penderfyniadau yn unol â pholisi ein Sancsiynau Twyll Budd-dal.

What types of Housing Benefit and Council Tax Benefit fraud are there?
Pa fathau o dwyll Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor sy'n digwydd?

Dyma rai o'r ceisiadau celwyddog sy'n digwydd.

- **Pobl yn peidio â dweud wrthym fod partner, perthynas, ffrind neu lojer yn byw gyda nhw neu wedi symud allan o'r cartref.**

Os bydd pobl yn peidio â dweud wrthym fod rhywun arall yn byw gyda nhw neu yn symud allan o'u cartref, bydd hyn yn dwyll oherwydd byddai'n effeithio ar eu hawl i fudd-dal.

- **Pobl yn peidio â dweud wrthym eu bod yn gweithio, nifer eu horiau gwaith na chyfanswm eu henillion**

Os bydd pobl sy'n hawlio budd-dal yn peidio â dweud wrthym eu bod yn gweithio ac na fyddant felly yn gallu hawlio budd-daliadau eraill fel Lwfans Ceisio Gwaith nac Ategiad Incwm, byddant yn twyllo. Efallai hefyd eu bod yn gweithio mwy o oriau neu yn ennill mwy o gyflog nag a ddywedasant wrthym.

- **Pobl yn peidio â datgelu inni eu holl gynilion a'u buddsoddiadau**

Digwydd hyn pan fydd pobl yn peidio â dweud y cyfan wrthym am eu cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu, eu harian, eu stociau a chyfrannau a mathau eraill o gynilion, oherwydd y byddai hynny'n effeithio ar eu hawl i fudd-dal.

- **Pobl yn peidio â dweud wrthym am eiddo sy'n perthyn iddynt, naill ai yn y DU neu dramor**

Digwydd y twyll hwn lle bo pobl sy'n hawlio budd-dal yn peidio â datgelu inni eu bod yn berchen ar eiddo neu dir (ac o bosibl yn derbyn rent amdano).

- **Pobl yn hawlio budd-dal ar gyfer cyfeiriad y maen nhw'n ei isosod neu ddim yn byw ynddo**

Yn yr achos hwn, bydd pobl yn hawlio budd-dal ar gyfer cyfeiriad nad ydyn nhw'n preswylio ynddo, neu eu bod yn ei isosod i rywun arall. Gall ddigwydd hefyd pan fo pobl yn hawlio budd-dal ar gyfer cyfeiriad nad yw'n bodoli, neu lle nad ydyn nhw efallai yn gorfod talu rhent. Gallai'r math hwn o dwyll ddigwydd gyda help a chydweithrediad landlord neu denantiaid eraill.

- **Pobl yn para i hawlio budd-dal ar eiddo wedi iddynt symud oddi yno**

Os bydd pobl yn peidio â dweud wrthym eu bod wedi symud, ond yn derbyn taliadau Budd-dal Tai ar gyfer eu cyfeiriad blaenorol, byddant yn cyflawni twyll.

- **Pobl yn peidio â datgelu manylion llawn eu hincwm inni**

Digwydd hyn pan fydd pobl sy'n hawlio budd-dal yn peidio â dweud y cyfan oll wrthym am eu hincwm neu am newidiadau yn y swm a dderbyniant, oherwydd y byddai hynny'n effeithio ar eu hawl i fudd-dal. Mae incwm yn cynnwys pensiynau (gwaith a phreifat), credydau treth, benthyciadau myfyrwyr, grantiau neu fwrsarïau.

- **Pobl yn peidio â dweud wrthym mai nhw, tad eu plant neu berthynas iddynt yw perchennog yr eiddo y maen nhw'n hawlio Budd-dal Tai ar ei gyfer**

Ni fedrwn dalu Budd-dal Tai os yw'r eiddo yn perthyn i'r sawl sy'n hawlio'r budd-dal, neu i dad unrhyw rai o'u plant. Felly, mae'r math hwn o dwyll yn codi o'r ffaith fod y sawl sy'n gwneud yr hawlio naill ai yn peidio â dweud wrthym mai ef yw perchennog yr eiddo neu yn peidio â dweud y gwir ynghylch pwy yw perchennog yr eiddo. Gall hyn fod yn wir hefyd mewn rhai amgylchiadau os perthynas i'r sawl sy'n hawlio yw perchennog yr eiddo.

I think I know someone who is committing benefit fraud – what should I do?

Rwy'n amau fy mod yn adnabod rhywun sy'n cyflawni twyll budd-dal – beth dylwn i ei wneud?

Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod inni. Os ydych yn amau bod rhywun yn cyflawni twyll budd-dal, rydym yn awyddus i glywed gennych.

- Gellwch gysylltu â'ch cyngor lleol (fe welwch enw eich cyngor lleol ar eich bil treth cyngor).

- Gellwch ffonio Llinell Genedlaethol Twyll Budd-dal ar 0800 328 6340 neu 0800 854440 neu 0800 678 3722 i siaradwyr Cymraeg.

- Gellwch lenwi ffurflen ar-lein yn www.secure.dwp.gov.uk/benefitfraud/.

What information do I need to give?

Pa wybodaeth y bydd rhaid imi ei rhoi?

Dywed y gyfraithei bod yn rhaid bod rheswm da dros archwilio rhywun ar amheuaeth o dwyll budd-dal. Bydd yn ofynnol felly ichi gynnig cymaint o'r wybodaeth ganlynol ag y medrwch.

- Enwau'r bobl y credwch eu bod yn cyflawni twyll budd-dal
- Eu cyfeiriadau
- Manylion am unrhyw un arall sy'n rhan o'r twyll
- Disgrifiadau o'r bobl a amheuir, megis eu taldra, eu maint corfforol a lliw eu gwallt
- Disgrifiadau o'u cerbydau, gan gynnwys rhifau'r cerbydau a'u lliw
- Pam yr ydych yn amau twyll a beth dybiwch chi mae'r bobl yn ei wneud
- Manylion am unrhyw waith y mae'r bobl yn ei wneud, gan gynnwys natur y gwaith, enwau a chyfeiriadau eu cyflogwyr, eu horiau gwaith a maint eu cyflog
- Manylion am unrhyw bartneriaid na ddatgelwyd eu bodolaeth inni, gan gynnwys eu henw, disgrifiad ohonynt, eu gwaith, a'r amserau y byddant yn cyrraedd y cartref ac yn ei adael
- Manylion amdanynt yn gwario llawer iawn o arian na fyddech yn disgwyl ei weld gan rywun sydd ar fudd-daliadau.

Do I have to give my name?

A oes rhaid imi roi fy enw?

Cewch ymatal rhag rhoi eich manylion cysylltu os yw'n well gennych, ond bydd yn gymorth inni os dywedwch chi wrthym pwy ydych chi fel y gallwn gysylltu â chi os bydd unrhyw gwestiynau gennym.

What happens with the information I give?

Beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth a roddaf?

Bydd ein Tîm Archwilio Twyll yn edrych ar y wybodaeth a roddwch. Byddant yn cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol.

Os bydd y wybodaeth yn ddigonol, byddant yn archwilio cais y person am fudd-dal. Efallai y cymer yr archwiliad dipyn o amser, ac ni fydd y tîm yn cael dweud wrthych beth a ddarganfyddant o ganlyniad i'r wybodaeth a gafwyd gennych.

What action will you take?

Pa gamau a gymerwch chi?

Weithiau ni fyddwn yn cymryd unrhyw gamau gan nad yw'r person yn euog o dwyll budd-dal. Er enghraifft, efallai y bydd y person eisoes wedi dweud wrthym ei fod yn gweithio ond nad yw hynny'n effeithio ar ei fudd-dal. Gall Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor gael eu talu i bobl sydd mewn gwaith ond sydd ar gyflog isel.

Dim ond os darganfyddwn fod person wedi bod yn cyflawni twyll budd-dal y byddwn ni'n gweithredu. Gall y gweithredu olygu stopio budd-daliadau pobl, gwneud iddynt dalu dirwy a'u dwyn gerbron llys, a allai arwain at gyfnod yn y carchar.

Where can I get more advice?

Ble y caf fi ragor o wybodaeth?

Os byddwch am ragor o help neu gyngor, cysylltwch â ni. Fe welwch ein manylion cysylltu ar eich bil treth cyngor neu yn llyfr ffôn eich ardal.

National Fraud Hotline

Llinell Gymorth Genedlaethol Twyll

Ysgrifennwch i:

National Fraud Hotline
PO Box 647
Preston
PR1 1WA

Rhadffôn: 0800 328 6340

Gwefan: www.targetingfraud.gov.uk

Independent advice

Cyngor Annibynnol

Os dymunwch gael cyngor annibynnol, cysylltwch â'ch swyddfa Cyngor ar Bopeth leol. Fe welwch eu rhif ffôn nhw ac asiantaethau cynghori eraill lleol yn eich llyfr ffôn, yn eich llyfrgell leol neu drwy gysylltu â ni.

Other formats

Ffurfiau eraill

Gellwch gael y wybodaeth sydd yn y daflen hon mewn print bras, mewn Braille ac mewn ieithoedd eraill. Mae fersiwn glywedol ar gael hefyd ar-lein. Ewch i'n gwefan ar www.benefit-leaflets.org i gael rhagor o wybodaeth.